# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun 8fed Tachwedd 2021

Presennol: Alan Hughes,Siân Parri, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Chris Brady, Terry Huws

Ymddiheuriadau: Henry Huws

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes (ar zoom) ac estynnodd groeso i bawb.

2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Ardal Ni 2035 –** Adroddodd y Cadeirydd y bu i'r Clerc, Siân Parry a'r Cadeirydd gyfarfod dros 'Teams' hefo Alys Jones Swyddog Cefnogi Cymunedau (gweler copi o'r nodiadau a dderbynwyd gan Alys o ganlyniad i'r sgwrs)
   b. **Sedd Wag –** Dechreuodd y Clerc y broses o hysbysebu'r sedd wag.
   c. **Cynghorwyr sydd ddim yn mynychu'r cyfarfodydd –** Cafodd y Clerc sgwrs gyda un o'r Cynghorwyr sydd ddim yn mynychu'r cyfarfodydd a chafwyd ar ddeall mai cyfarfod ar zoom yw'r broblem, pan fyddwn yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb bydd yn sicr o fynychu.

3. Gohebiaeth:
   a. **Carafan heb ganiatad yn Llangwnnadl –** Bu i Swyddog Gorfodaeth ymweld â'r safle a rhoddwyd rhybudd i gyflwyno cais cynllunio. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Swyddog i ofyn am ddiweddariad ynghyd a holi am sefyllfa carffosiaeth y safle.
   b. **Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol -**Cyflwynodd y Clerc gopi o'r adroddiad i'r Cynghorwyr, bydd cyfle mis nesaf i gyflwyno barn.

c. **Y gronfa Datblygu Cynaliadwy –** Rhannodd y Clerc y wybodaeth fod arian ar gael ar gyfer prosiectau addas – byddwn yn trafod hyn eto mis nesaf ar ol cael amser i feddwl.

ch **Cais Cynllunio C21/0887/46/RE –** Waenhelyg, Dinas – Dim Sylw

d. **Cais Cynllunio C21/1049/38/TC –** Penrhos Polish Village,Pwllheli Cefnogi os bydd 'amod person lleol' /'fforddiadwy' ar y tai. Hefyd datgan pwysigrwydd cadw'r cartref nyrsio ar y safle.

dd. **Cais Cynllunio C21/0895/46/DT –** Tan y Frodd, Garnfadryn – Cefnogi

e. **Cais Cynllunio C21/0734/46/LL-** Tyddyn Isaf, Tudweiliog - Cefnogi (nodi ei fod o fewn AHNE)

**4. Unrhyw fater arall:**

a. Cynigiodd y Cadeirydd ein bod yn defnyddio system 'Teams' yn hytrach na 'zoom' i gynnal ein cyfarfod mis nesaf, roedd pawb yn hapus i dreialu hyn.

b. Dywedodd Chris Brady fod cyflymder y drafnidiaeth sy'n pasio'r Refail i fynd i faes parcio'r ysgol yn pery pryder mawr iddo, gan gysidro fod plant a cherddwyr yn defnyddio'r darn yma o'r ffordd i gyrraedd yn ysgol, gallai damwain ddigwydd. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu â'r adran Priffyrdd i ofyn a fyddai'n bosib rhoi 'speed bumps' ar y darn yma o'r ffordd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 13eg Rhagfyr 2021 am 7.30yh